

**LLYWODRAETH CYMRU**  
**Datganiad Gwrandawriad yr Archwiliad**

**Cynllun Datblygu Lleol**  
**Parc Cenedlaethol Eryri**  
**Diwygiad Cyntaf (Gweithdrefn Ffurf Fer)**

Sesiwn Gwrandawriad 3 – 19 Gorffennaf 2018

Penodau 3 a 4: Yr Amgylchedd Naturiol, Diwylliannol a  
Hanesyddol

## Materion a Phethau sy'n Codi

### **1. Polisi Strategol D 'Amgylchedd Naturiol':**

**a) Er nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i'r polisi hwn, a yw'n dal i ateb ei ddiben o ran gwarchod adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol?**

### **2. Gwarchodfa Awyr Dywyll a Biosffer Dyfi (Polisi Datblygu 2):**

**a. Mae'r testun ychwanegol yn y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y dynodiadau hyn yn glir. Fodd bynnag, a ddylai'r Cynllun gydnabod ei bod yn anorfod y bydd datblygiadau mewn rhannau penodol o'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith ar y dynodiadau hyn?**

**b. A fydd dynodi Gwarchodfa Awyr Dywyll yn arwain at 'ddull hollgynhwysfawr' o asesu datblygiadau? Ac a ddylid gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol?**

**c. A yw'r polisiâu'n rhoi digon o eglurder o ran sut y bydd cynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar y dynodiadau hyn yn cael eu hystyried a ble y bydd mesurau lliniaru a digolledu yn ofynnol? A ddylid cynnwys hyn o fewn polisi?**

**d. A yw'r Cynllun yn rhoi digon o arweiniad i ddatblygwyr/ymgeiswyr o ran pa wybodaeth y mae angen iddynt ei darparu i ategu unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn ym Mholisi Datblygu 2?**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw sylwadau mewn perthynas ag 1a – 1d.

### **3. Polisi Datblygu 3 'Ynni':**

**a. Mae'r newidiadau i'r Cynllun (y testun sy'n ategu Polisi Datblygu 3) yn cydnabod pwysigrwydd gorsafoedd trydan dŵr a chynlluniau microgynhyrchu. Er na chynigir unrhyw newidiadau, sut fydd y cynllun yn asesu cynlluniau yn y dyfodol?**

**b. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod tirwedd y Parc Cenedlaethol yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt. A yw'r Cynllun yn cydymffurfio â Pholisi Cenedlaethol ar y trothwyon ar gyfer gwahanol dechnolegau, ac a ddylai'r Cynllun ddarparu arweiniad ychwanegol ar gyfer datblygwyr ynghylch natur a graddfa cynlluniau ynni adnewyddadwy arfaethedig yn y Parc?**

**c. Sut fydd cynigion ar y ffin rhwng y Parc Cenedlaethol ac APCau cyfagos yn cael eu hasesu?**

Mae gan Lywodraeth Cymru y sylwadau canlynol ynghylch Ynni Adnewyddadwy. Beth yw'r 'ystyriaethau cynllunio' yn y Canllawiau Cynllunio Atodol? Dylai'r polisi gynnwys popeth y mae ei angen i benderfynu ynghylch cais cynllunio; yn y bôn nid yw'n briodol symud meini prawf polisi i Ganllawiau Cynllunio Atodol. Byddai rhywfaint o eglurhad ar y mater hwn yn fuddiol er mwyn sicrhau y bydd y polisi'n gweithio fel a

fwriadwyd. Beth yw'r 'ystyriaethau' yn yr ail fwled? Pa ran o'r polisi y mae hyn yn berthnasol iddi? Mae'r polisi'n aneglur yn hyn o beth a byddai o fudd ei egluro ymhellach.

Dylai'r Awdurdod gynnwys y Tabl sydd yn Atodiad 2 o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy diwygiedig o fewn y CDLI gan nodi'r capasiti gosodedig ar gyfer cyfnod y cynllun fesul technoleg i fod yn gyson â pholisi cenedlaethol. Dylai'r fframwaith monitro adlewyrchu'r dull hwn hefyd. Dylai'r Awdurdod fwrw golwg ar CDLliao a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar y sail hon cyn sesiynau'r gwrandawiaidau.

#### **4. Mwynau:**

**a. A yw'r newidiadau a gynigir i Bolisiau Strategol E1, E2 ac E3 yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac yn darparu sail eglur i ymdrin â datblygiadau ar ddyddodion agregau neu fwynau a ddiogelir, yn ogystal ag asesu cynigion newydd ar gyfer echdynnu mwynhau yn y Parc Cenedlaethol?**

**b. A yw'r Cynllun yn rhoi digon o arweiniad i ddatblygwyr/ymgeiswyr ynghylch yr wybodaeth y mae angen iddynt ei darparu i ategu unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn yn y Cynllun?**

Mae gan Lywodraeth Cymru y sylwadau canlynol ynghylch Polisi Strategol E: Polisi Diogelu Mwynau. Dim ond adnoddau mwynol yng Nghategori 1 ar y Map Cynigion y mae Polisi E1 yn eu diogelu o hyd. Mae'r gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Cam Adneuo yn dal i fod yn wrthwynebiad gan y dylai'r polisi ddiogelu adnoddau mwynol yng Nghategori 1 a 2, yn unol â Llythyr y Prif Swyddog Cynllunio (14 Tachwedd 2012) – gweler y ddolen i Fap Arolwg Daeargol Prydain sy'n dangos yn glir bod Categori 1 a 2 yn cael eu diogelu. Mae gofyn diwygio hyn.

Clustogfeydd – Ym Mharagraff 3.2 (Papur Cefndir 9 – Mwynau, Tachwedd 2017) fe ddilëwyd y cyfeiriad at glustogfeydd 100m a 200m. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r rhain wedi cael eu diwygio ar y Map Cynigion yn unol â gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru yn ystod y Cam Adneuo.

#### **5. Gwastraff:**

**a. A yw Polisi Datblygu 4 yn darparu fframwaith eglur i asesu ceisiadau ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd?**

**b. A yw'r Cynllun yn rhoi digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch yr wybodaeth y mae angen iddynt ei darparu i ategu unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn ym Mholisi Datblygu 4?**

Dim pryderon sydd heb gael sylw.

#### **Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol**

#### **6. Polisi Strategol Ff 'Amgylchedd Hanesyddol':**

**a) A yw'r cyfeiriad at Ddarpar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y polisi ac ar y map cyfyngiadau'n gynamserol o gofio mai dim ond ar restr amhendant a gyflwynir i UNESCO y maent wedi'u cynnwys?**

**b) Sut fydd ceisiadau cynllunio yn yr ardaloedd hyn yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod interim hwn?**

**7. Polisi Datblygu 9 'Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig'**

**a) Beth yw ystyr y term 'cynllun arallgyfeirio gwledig'? Ai 'arallgyfeirio amaethyddol' ddylai hwn fod yn unol â Pholisi Datblygu 20 er mwyn cysondeb? Os felly, a ddylai'r naill bolisi a'r llall groesgyfeirio at ei gilydd?**

**b) A ddylai'r polisi ddarparu eglurhad a chyfiawnhad pellach o ran y gofyniad i dalu swm gohiriedig ar gyfer anheddau'r farchnad agored? A ddylai'r polisi groesgyfeirio at Bolisi Strategol Ch?**

Dim sylw.

**8. A yw'r Cynllun yn darparu sail gadarn i weithredu a monitro'r amgylchedd naturiol, diwylliannol a hanesyddol?**

Dim sylw.